## AT Y DARLLENYDD.

WRTH ystyried fod yr ysgrythyr yn tystiolaethu fod "benyw yn ofni yr Arglwydd yn deilwng o glod a pharch," tueddwyd fi yn fy nheimladau i gyfansoddi yr ychydig odlau canlynol, er coffadwriaeth parchus am ein hanwyl Chwaer sydd wedi ein gadael, yr hon a fu yn aelod selog a defnyddiol gyda'r Bedyddwyr yn Mheuffordd-lâs, yn nghylch 23ain o flynyddau. Bydded hyspys i'r darllenydd, nad oeddwn yn bwriadu eu gwneuthur yn gyhoeddus i'r cyffredin pan gyfansoddais hwynt, oblegid fy annysgeidiaeth a'm hanaddasrwydd i'r gorchwyl; eithr ar ddymuniad amryw o gyfeillion a pherthynasau y drancedig, wele hwy wedi eu cyfleu i'r Argraff-wasg. Gan hyny, ymddybynaf yn hyderus a gostyngedig ar hynawsedd a chyd-ddygiad y darllenwyr dysgedig yn ngwyneb fy anmherffeithiadau, a dymunaf les ysbrydol i bawb a'u darlleno. Yr Arglwydd a'n gwnelo ni o nifer y teulu ag y bydd eu "coffadwriaeth yn fendigedig."

Eich ewyllysiwr da,

THOMAS JAMES.

*Dyffryn-galar, Trefeglwys,*
*Awst 9fed,* 1830.

# MARWNAD AM ANN JONES.

---

1 Beth yw'r gofid dwys a'r galar,
Y griddfan a'r och'neidio sydd ?
Beth yw'r hiraeth sy'n cynniwair
Drwy'n hardaloedd nos a dydd ?
A ydyw angau annymunol
A'i weinidogaeth ar y ma's ?
Wrth fynych dramwy yn mhlith y werin,
Daeth i ardal Penffordd-lâs.

2 Brenin dychryniadau ydwyt,
Mae rhyw arswyd yn dy wedd,
Gwnaethost rwyg yn muriau Seion,
Teflaist golofn gref i'r bedd ;
Ann gariadlon roi'st i orwedd
Yn ei hoeraidd wely pridd,
Hyd nes cano'r euraidd udgorn,
Boreu'r adgyfodiad ddydd.

3 Pam na buasit ti, y bradwr,
Yn taro rhyw erlidiwr cas,
A gadael Ann oedd mor ddefnyddiol,
I ryfela ar y ma's ?
Oni fuasai yn fwy cymhwys
Iti adael iddi fyw,
Ac it' daro rhyw Herodias,
Sydd yn erlid eglwys Dduw ?

